

**Papur ar gyfer Y Pwyllgor Cyllid: Cynnig i Ddiwygio Cynnig Cyllidebol Llywodraeth Cymru  
FIN(4)-03-11 (Papur 1)**

**Y Mater**

1. Rwyf yn cynnig diwygio Cynnig cyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb eleni a byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor am fy nghynnig.

**Y Cefndir**

2. Mae'r cynnig cyllidebol presennol wedi cael ei ddefnyddio ers Deddf Llywodraeth Cymru yn 2006. Ar hyn o bryd mae ffurf y cynnig cyllidebol, y mae'r Cynulliad yn pleidleisio arno, yn pennu cyfansymiau rheoli cyllidebau unigol ar gyfer Pob Prif Grŵp Gwariant (MEG). Pe bai'r Llywodraeth yn torri unrhyw un o'r cyfansymiau rheoli hyn yna byddai amodau ynghlwm wrth gyfrifon y Llywodraeth gan y bernid bod y gwariant yn afreolaidd a gallai'r gwariant fod yn anghyfreithlon hefyd.
3. Mae'n bwysig bod gennym gyfansymiau rheoli y gallwn fonitro gwariant yn eu herbyn - a hynny at ddibenion monitro mewnol ac er lles tryloywder allanol. Rwyf o'r farn y dylai monitro barhau i gael ei wneud ar lefel portffolio Gweinidogol. Er hynny, mae rhai pryderon wedi bod gennyf ynghylch canlyniadau difwriad y model cyllidebol presennol am y gall fod yn groes i reolaeth ariannol effeithiol ar lefel Llywodraeth Cymru. Mae ofn ynghylch torri'r cwmpasau sy'n rhwymo mewn cyfraith wedi arwain ar adegau at ddatgan tanwariant yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, gyda chyfle cyfyngedig i'w ailgyfeirio. Mae proses y Gyllideb Atodol yn cymryd rhyw ddau fis i'w chwblhau ac mae hyn yn golygu bod dyddiad cau cynnar ar hyn o bryd ar gyfer diwygio ein cynlluniau gwario mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol. Ynn ngoleuni cyllidebau llai a chyfyngiadau ar ddwyn tanwariant ymlaen o dan y Mekanwaith Cyfnewid Cyllidebol newydd, mae'n bwysicach nag erioed mynd ati i wario adnoddau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.
4. Pryder eilaidd yw bod yr ofn ynghylch torri cwmpasau wedi golygu bod pwysau i gyllidebau llai gael eu grwpio er mwyn osgoi torri cwmpasau. Gall hyn arwain at MEGs sy'n gyfuniad o gyllidebau llai, gyda llai o dryloywder ac atebolrwydd o ganlyniad.

**Newidiadau arfaethedig**

5. Roedd y broses gyllidebol bresennol yn seiliedig yn fras ar y broses a oedd ar waith yn yr Alban. Ers hynny, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno newidiadau sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd cyllidebol iddi. Mae Bil Cyllid yr Alban yn parhau i bennu cwmpasau Gweinidogol unigol. Er hynny, ceir cymal tra phwysig sy'n creu'r hyblygrwydd ar gyfer y sefyllfa ganlynol: pe bai cyllideb unrhyw bortffolio unigol yn gorwario ni fyddai'n golygu bod y cwmpas wedi cael ei dorri pe bai'r gorwariant yn

cael ei gwmpasu gan gyfanswm yr adnoddau - hy cyhyd ag y cynhwysir cyfanswm y gwariant o fewn adnoddau a bleidleisir i Lywodraeth yr Alban, ni thorrir y cwmpas. Er bod y newid yn golygu bod gan Lywodraeth yr Alban yr hyblygrwydd i symud adnoddau rhwng cyllidebau heb gymeradwyaeth y Senedd, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwmo y bydd gan y Senedd o hyd yr un lefel o wybodaeth a chyfraniad ag yn y gorffennol. Mae'r Llywodraeth yn parhau i osod dau Ddiwygiad y flwyddyn i'r Gyllideb - yr hyn sy'n cyfateb yn yr Alban i'r Gyllideb Atodol.

6. Wedi edrych ar y diwygiadau sy'n cael eu mabwysiadu yn yr Alban, credaf y byddent o gymorth sylweddol o ran datrys y materion yr wyf wedi'u nodi uchod. Mae gennym y pwerau cyfreithiol i fabwysiadu dull tebyg yng Nghymru. Er hynny, credaf ei bod yn allweddol bod y Pwyllgor Cyllid yn cefnogi'r newid. Byddwn yn croesawu'ch barn am y newidiadau arfaethedig.

### **Manteision y Newidiadau Arfaethedig**

7. Prif fantais y newid hwn fyddai cynyddu tryloywder ac atebolrwydd. Byddai'n caniatáu i gyllidebau gael eu strwythuro'n gliriach ar sail swyddogaethol, yn hytrach nag ar sail sy'n cadw'r risg o dorri cwmpas i'r lleiaf posibl.
8. Byddai'r newid hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ni wneud y gorau o wariant Llywodraeth Cymru yn unol â'i blaenoriaethau. Fel y gwyddoch, rwyf wedi ymrwmo i weithio'n agored ac yn dryloyw ac i roi cymaint o gefnogaeth â phosibl i waith y Pwyllgor Cyllid. Rwyf am ei gwneud yn glir iawn felly nad yw'n fwriad gennyf i'r newid arfaethedig leihau'r wybodaeth sydd ar gael i'r Pwyllgor hwn.
9. Fy mwriad, er gwaethaf unrhyw newidiadau, fyddai parhau i roi'r un wybodaeth i'r Cynulliad ac i'r Pwyllgor ag ar hyn o bryd. Yn ymarferol, ni fydd unrhyw newid i'r ffordd yr ymdrinnir â'r gyllideb. Byddai'r cynnig cyllidebol blynyddol yn mynd rhagddi yn yr un ffordd ag arfer. Ni fyddai angen Cyllideb Atodol ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn, ond yn ymarferol byddwn yn parhau i osod dwy Gyllideb Atodol y flwyddyn ac yn parhau i ddarparu o leiaf yr un lefel o wybodaeth am gyllidebau ag ar hyn o bryd.
10. Yn fy marn i mae Cyllidebau Atodol yn hanfodol o ran rheoli dyraniadau ychwanegol o Gronfeydd wrth gefn ac fel datganiad o sut rydym yn alinio cyllidebau â'n blaenoriaethau strategol. Fel y cyfryw, bydd gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid yn parhau i fod yn hanfodol ac ni chaiff ei newid gan y cynigion hyn. Yn syml, byddai'r cynigion hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac rwyf yn bwriadu cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor am unrhyw amrywiad rhwng y cynlluniau gwario a bennwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn a'r alldro terfynol, ynghyd ag esboniad am yr amrywiad.

## **Y Camau Nesaf**

11. Rwyf wedi amgáu gyda'r papur hwn enghraifft o sut y byddai'r cynnig cyllidebol diwygiedig yn edrych o dan y cynigion hyn (Atodiad A). Byddwn yn croeswu'ch barn am y cynigion hyn. Pan fyddaf yn cyhoeddi pecyn y gyllideb ar gyfer ein cynigion Cyllidebol drafft fy mwriad i yw cynnwys cynnig cyllidebol yn unol â'r sail ddiwygiedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi gynnwys ystyriaeth o'r cynigion yn eich adroddiad ar gynigion y Gyllideb ddrafft. Byddaf wedyn yn pwyso a mesur eich sylwadau, cyn gosod y cynnig cyllidebol terfynol. Yn y cyfamser, byddwn yn gwerthfawrogi'ch barn am y cynigion hyn.

**Jane Hutt AC,  
Y Gweindiog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**